LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# YR ADBORTH A DDYWEDASOCH WRTHYM

# YMWELIAD Â CHARTREF GOFAL GWERNLLWYN

## MAWRTH 2026

## CYFLWYNIAD

### Gwrando ar Leisiau mewn Cartrefi Gofal

Mae Llais yn ymweld â chartrefi gofal ledled Cymru i wrando ar breswylwyr a'u teuluoedd. Rydym yn casglu adborth ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wella, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gael eu clywed – yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu gadael eu cartref. Rydym yn defnyddio'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym i helpu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i gefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar y person sy'n parchu urddas, annibyniaeth ac ansawdd bywyd.



## BETH WNAETHOM

Ym mis Mawrth 2026, ymwelodd tîm o Orllewin Llais â Chartref Gofal Gwernllwyn yn Crosshands. Yn ystod yr ymweliad, buom yn siarad â thrigolion i glywed am eu profiadau o'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn. Fe wnaethom hefyd rannu arolwg gyda theuluoedd ac anwyliaid preswylwyr, gan roi cyfle iddynt rannu eu barn a'u hadborth hefyd.

## BETH DDYWEDODD POBL WRTHYM

Mae 2 x meddygfeydd yn dod yma. Mae'r meddyg yn dod i mewn ar ddydd Mawrth.
Mae optegydd wedi dod i mewn ac mae rhywun yn dod i mewn i wneud fy nhraed.

Mae'n braf iawn byw yma. Rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser yn siarad â phobl; mae'r amser yn hedfan.Rwy'n ddall, byddai'n braf pe bai rhywun yn gallu darllen i mi.

Dydw I ddim yn teimlo'n unig. Weithiau mae pethau'n digwydd.

Mae cerddoriaeth, canodd dyn i ni, roedd wedi'i wisgo fel Elvis Presley.  Rydym hefyd wedi cael Côr Cymraeg yn canu i ni i lawr y grisiau.

Rwy'n teimlo'n ddiogel yma. Roeddwn i'n arfer cwympo pan oeddwn i'n byw gartref ar fy mhen fy hun.  Mae staff bob amser wrth law i'm helpu.

## ADBORTH CADARNHAOL

Siaradodd trigolion yn hynod gadarnhaol am y staff yn yng Nghartref Gwenllwyn gan eu disgrifio fel hawdd i fynd ato, cefnogol ac yn barod i helpu bob amser

Gwnaeth pawb ag ymgysylltodd â ni ganmol y ffordd y trefnodd y staff apwyntiadau MT a'r ysbyty pan oedd angen. Fodd bynnag, mynegodd rhai preswylwyr bryder am y cyfyngiadau ar fynediad i wasanaethau deintyddol GIG yn yr ardal, gyda llawer yn teimlo nad oedd ganddynt opsiwn ond talu'n breifat am ofal deintyddol.

## EIN CANFYDDIADAUD

Dywedodd preswylwyr eu bod yn hapus gyda'r staff yng Nghartref Gofal Gwernllwyn, er bod rhai wedi nodi bod cyfleoedd cyfyngedig i siarad â staff sy'n siarad Cymraeg. Ar y cyfan, roedd pobl yn falch o'r amrywiaeth o ddewisiadau bwyd oedd ar gael. Er bod rhai wedi mynegi ffafriaeth am brydau poeth, cafodd y cartref ei ganmol am ei bwdinau, gyda chrwst afal a chwstard yn ffefryn cadarn.

Roedd rhai gweithgareddau ar gael i breswylwyr drwy gydol y dydd, ac roedd llawer yn sôn am fwynhau treulio amser yn yr awyr agored yn yr ardal batio yn ystod y tywydd cynhesach.

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Bydd Llais yn rhannu ein adborth drwy:

- Gyhoeddi diweddariadau yn ein cylchlythyr
- Cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan

**Diolch i bawb am rannu eu barn, mae eich mewnbwn yn wirioneddol bwysig**

## LLAIS GORLLEWIN CYMRU

Yn cwmpasu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n byw yn:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro


ymholiadaugorllewincymru@llaiscymru.org

01646 697 610

@LlaisWestWales